

Cyngor Cymuned Llanelian (303)

Cofnodion cyfarfod Hydref 9, 2018 a gynhaliwyd yn Neuadd Bentref Penysarn am 7yh.

Presennol: Elfyn Hughes, Thomas Jones, John Griffiths, Dafydd Griffiths, Gordon Hayes, Carol Whitaker, Ian Evans, Glenys Jones

Ymddiheuriadau: Hefina Williams, Helen Hughes, Cyng. Richard Jones, Cyng. Aled Jones

Yn bresennol: Carli Evans Thau (Clerc), Noela Jones (Grwp Cynefin), Bethan Jones (Grwp Cynefin)

Yn absennol: David Gerrard, Cyng. Richard Griffiths

1 Croeso

Cadeiriwyd y cyfarfod gan Elfyn Hughes, ac fe groesawyd pawb i'r cyfarfod.

2 Datgan Diddordeb

John Griffiths – Cynllunio – Adnabod yr ymgeisydd

4 Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf

Derbyniwyd y cofnodion yn gywir cynnig Dafydd Griffiths, eilio Glenys Jones

Nododd Elfyn Hughes bod rhai newidiadau i'r agenda gydag eitemau parhaol i'w cynnwys o hyn allan er mwyn rhoi cyfle i bwyllgorau adrodd yn ol os ydynt wedi cyfarfod, a hefyd colofn er mwyn hwyluso canfod unrhyw weithredu oedd ei angen. Nid oedd gwrthwynebiad i'r newidiadau.

5 Materion yn Codi o'r Cofnodion

5.1 Priffyrdd

Nodwyd bod rhai cerbydau wedi symud erbyn hyn a'r ardal wedi twtio. Mae gordyfiant o erddi a thir preifat yn parhau yn broblem. Y clerch i gysylltu a CSYM eto. CET

Cafwyd ymateb gan Arwel Evans y Swyddog Tramwy ynglŷn a Llwybr Lletroed. Cytuno peidio a chymryd camau pellach.

Nid oedd ddiweddariad ar newid y cyfyngiad cyflymdra ar y ffordd osgoi. Y clerch i gysylltu eto am ddiweddariad. CET

5.2 Ysbwriel

Cafwyd ddiweddariad gan CSYM am finiau ailgylchu. Roedd yr aelodau yn siomedig nad oedd yr ardan wedi ymgynghori a'r cyngor cyn symud y biniau.

Nid oedd ddiweddariad gan CSYM ynglŷn a'r swbriel ar y ffordd ger Cae Dwr. Bydd Dafydd Griffiths yn gwneud ymholiadau pellach. DG

Nodwyd bod coed tan yn dechrau pentyru ger Rhos Newydd eto. Cytuno cadw golwg a chodi ymwybyddiaeth CSYM os fydd angen.

5.3 Blwch Post

Mae'n debyg bod angen i berchenog adeilad yr hen swyddfa bost ofyn i'r Post Brenhinol am gael symud y blwch. Gobeithir bydd mwy o wybodaeth erbyn y cyfarfod nesaf.

5.4 Gardd Top Rallt

Cadarnhaodd Glenys Jones nad oedd yr ysgol yn gallu cynnal y bocsus blodau ar hyn o bryd. Nodwyd bod angen ail osod ambell fricsen a chwynu o amgylch y meinciau ac ymylon y maes parcio. Nododd y clerch bod cynnal yr ardal yn ran o gytundeb cynnal y caeau chwarae. Y clerch i gysylltu a Richard Edwards i dwtio cyn gynted a phosib. CET

5.5 Telesgop Mynydd Parys

Trafodwyd cais Cyngor Tref Amlwch am gyfraniad ariannol tuag at brosiect i ddathlu 250 mlynedd ers canfod copr ar y mynydd. Wedi trin a thrafod y prosiect cytuno cyfrannu £200 ar yr amod na fyddai unrhyw gyfraniad pellach tuag at cynnal a chadw'r teclyn yn y dyfodol.

CET

3 Grwp Cynefin – Datblygiad Stad Dublin

Croesawyd Noela Jones (Pennaeth Tai) a Bethan Jones (Uwch-swyddog Tai) i'r cyfarfod. Diolchwyd am y croeso ac ymddiheuro am fod yn hwyr yn cyrraedd y cyfarfod.

Gobeithir bydd y tai yn Stad Dublin yn barod erbyn Chwefror 2019. Esboniodd Noela Jones y broses o osod y tai, gan gadarnhau mai tai rhentu cymdeithasol fydd y tai yma. Bydd unrhyw denantiaid posib yn cofrestru eu hangen gyda CSYM, a weydn Grwp Cynefin fydd yn gosod y tai drwy flaenioraethu angenghenion a chyswllt lleol. Nodwyd bod amod cysylltiad lleol (o 5 mlynedd) wedi ei gynnwys yn y caniatad cynllunio (cytundeb 106).

Nodwyd byddai angen caniatad gan yr ymgeiswyr i allu rhannu gwybodaeth gyda'r cyngor er mwyn cadarnhau cysylltiad lleol. Nodwyd nad oedd gorfodaeth ar ymgeiswyr i rannu gwybodaeth.

Fe ofynnodd Thomas Jones sut fyddai Grwp Cynefin yn monitro nad oedd y tai yn cael eu camddefnyddio. Nododd ei fod yn ymwybodol o dri ty rhent sydd wedi cael eu newid yn fewnol heb ganiatad. Nododd Noela Jones bod ymweliad at denantiaid newydd wedi chwe wythnos ac ato wedi chwe mis. Nodwyd mai cytundeb cychwynnol o 12 mis sydd i'w gynnig ar gyfer y tai, a bod hyn yn rhoi cyfle i fonitro ac adnabod unrhyw broblemau posib.

Cadarnhaodd Noela Jones y byddai Grwp Cynefin yn ddiolchgar petai'r cyngor yn codi ymwybyddiaeth o unrhyw cam-ddefnydd neu broblemau eraill yn y stad. Mae Grwp Cynefin yn gweithredu ar draws saith sir, ac nid ydynt yn gallu ymweld a phob ty a phob datblygiad.

Cadarnhaodd Noela Jones nad oedd yn ymwybodol o unrhyw ddatblygiad arall gan Grwp Cynefin yn yr ardal gyfagos (Cemaes a Llanddeusant yw'r ddau ddatblygiad arall ym Mon). nodwyd fodd bynnag bod CSYM yn ceisio mapio'r angen am dai yn sgil datblygiad Wylfa Newydd.

Cytuno byddai copi o'r cytundeb tenantiaeth, polisi gosod (drafft) a phosteri yn hysbysebu'r tai fydd ar gael yn Stad Dublin yn cael eu hanfon i'r clerc cyn gynted a phosib. Gofynnwyd a fyddai posib arddangos y poster yn yr hysbysfwrdd a hefyd ar wefan y cyngor.

Roedd yr aelodau yn falch gweld bod yr enw Dublin wedi ei gadw ar datblygiad, ond yn bryderus fodd bynnag y byddai posib i't tai gael eu gosod i'r bobl hynnu sy'n deall sut i weithio'r system, neu rheini sydd yn cael eu symud o drafferthion mewn ardaloedd eraill.

Diolchwyd i Noela Jones a Bethan Jones am ddod i'r cyfarfod ac am rannu gwybodaeth a'r aelodau.

6 Adroddiadau Is-bwyllgorau 6.1 Caeau Chwarae

Cafwyd grynodedb o adroddiad diweddaraf Medwyn Owen. Cytuno cysylltu ag o i esbonio'r sefyllfa gyda'r biniau ym mharc Lon Tyddyn Waen. Cytuno na fyddai'r Cyngor yn gosod arwydd yn hysbysu lleoliad y ffon agosaf ac adnoddau cymorth cyntaf gan fod y ddau faes chwarae yn ddigon agos i nifer o dai petai angen cymorth brys.

CET

	Nodwyd bod Gordon Hayes yn ymwybodol o'r gwaith oedd ei angen i drin y ffens ym Maes Llwyfo a gyda'r deunyddiau i wneud hynnu. Y clerch i ofyn i Richard Edwards drin y llwybr unwaith eto gyda chwyn laddwr.	CET
	Nodwyd bod angen cyflwyno cais i Magnox os am gael mainc newydd i'r parc. Y clerch i baratoi cais am nifer o feinciau.	CET
6.2	Llithrfa Mae rhai goriadau yn cael eu dychwelyd erbyn hyn. Bydd y Bartneriaeth Llithrfa yn cwrdd ym mis Tachwedd i drafod ymhellach.	CET
6.3	Mynwent Nodwyd nad oedd y pwyllgor wedi cwrdd ers y cyfarfod diwethaf, a bod yr asesiad o fedd feini ond newydd ei dderbyn oddi wrth H Roberts ai Fab. Bydd y pwyllgor yn cwrdd cyn gynted a phosib ac yn adrodd yn ol i'r cyfarfod nesaf. Nodwyd bod rhai o'r hen gistiau angen eu gosod yn fflat a byddai hyn yn gost i'r Cyngor. Cytuno mai cyfrifoldeb y teulu oedd cynnal y safleoedd ac felly byddai posib cysylltu a hwy er mwyn hawlio arian yn ol wedi iddynt gael eu diogelu.	CET
	Cytuno gofyn i'r Henaduriaeth am mainc i'w gosod ym mynwent Bosra.	CET
6.4	Cyllid a Pholisi Cytuno bod y cynllun iaith a rheoliadau ariannol angen eu adolygu dros y misoedd nesaf. Bydd y cod ymddygiad yn cael ei drafod mis nesaf i sicrhau bod yr holl aelodau yn gyfforddus a'i gynnys a'r gofynnion ynghlwm. Dosbarthwyd copiau o'r ddogfen i'r rheini oedd yn bresennol er mwyn cael cyfle i'w darllen.	
6.5	Pwyllgorau Allannol Nododd Glenys Jones y byddai mewn sefyllfa i roi ddiweddariad ar ran <u>llywodraethwyr yr ysgol</u> yn y cyfarfod nesaf.	GJ
	Mae cyfarfod <u>Un Llais Cymru</u> i'w gynnal nos lau 11/10. Ian Evans i fynychu ar ran y cyngor.	INE
	<u>Siapio Cymunedau</u> – mae cyfarfod i'w gynnal yng Nghemaes 24/10. Bydd Dafydd Griffiths yn mynychu ar ran y cyngor.	DG
7	<u>Cynllunio</u>	
7.1	Ceisiadau – Roedd un cais i'w ystyried sef Bryn, Lon yr Ysgol, Penysarn (24C349A). Roedd yr aelodau yn gefnogol o ddymchwel yr anedd presennol ac adeiladu un ty yn ei le. Nodwyd bod problemau parcio eisioes ar y lon yn barod.	CET
7.2	Penderfyniadau – nid oedd adroddiad gan CSYM am benderfyniadau diweddar.	
8	<u>Materion Ariannol</u>	
8.1	Taliadau Cymeradwywyd y taliadau canlynol – £211.18 Costau Clerch Gorffennaf – Medi £667.41 Cyflog Clerch gan gynnwys taliad rheoli Mynwent Bosra £28.00 Neuadd Bentref Penysarn £87.00 M Owen Arolygon Caeau Chwarae	
	Nododd y clerch ei bod yn disgwyl derbyn datganiadau gan y banc cyn gallu cyflwyno adroddiad chwarterol i'r aelodau.	CET
8.2	Ceisiadau am Arian Nid oedd ceisiadau o'r newydd i'w ystyried.	

- 8.3 Archwiliad**
Cafwyd adroddiad yr archwiliwr allannol ac fe drafodwyd y pwyntiau oedd wedi eu nodi ganddynt. Nodwyd mai manion gweinyddol oedd wedi eu nodi gan yr archwiliwr allannol. Y clerch i gysylltu a'r archwiliwr mewnol i godi ymwybyddiaeth. Bydd yr adroddiad blynyddol i'w harddangos ar y wefan. CET
- 9 Cronfa Tŷ Moel Isaf**
Dim diweddariad.
- 10 Iechyd a Diogelwch**
Materion y fynwent – gweler 6.3 uchod.
- 11 Wylfa Newydd**
Cafwyd ddiweddariad gan Dafydd Griffiths o'r hyn a drafodwyd yng nghyfarfodydd diweddaraf Partneriaeth Cynghorau Gogledd Mon. Nodwyd bod cyfarfod wedi'i gynnal gyda Gwen Parry Jones, un o brif weithredwyr y cwmni, ond bod y bartneriaeth yn dal i ddisgwyl am wybodaeth pellach ganddi. Nodwyd bod y bartneriaeth wedi ysgrifennu at yr arolygaeth i nodi pryder a chwyno am y diffyg gwybodaeth gan Horizon. Nodwyd hefyd bod Horizon wedi nodi adborth a phryderon yn anghywir yn eu dogfennau. Dafydd Griffiths i gysylltu i gywrio a diweddarau. Cadarnhaodd Dafydd Griffiths ei fod yn bwriadu mynychu'r gwrandawiaidau ym Mona sydd i'w cynnal yn rhan o'r broses i ystyried y cais DCO. DG
- 12 Gohebiaeth**
- 12.1** Cylchlythyr diweddaraf Rhun ap Iorwerth er gwybodaeth.
- 12.2** Nodyn o ddiolch gan y Clwb Ieuenctid yn dilyn cyfraniad tuag at y Milwr Tawel.
- 12.3** Ymgynghoriad ar ganllawiau cynllunio. Mae angen ymateb erbyn 22/11 os am wneud hynnu. Dafydd Griffiths ac Elfyn Hughes i ddarllen ymhellach.
- 13 Unrhyw Fater Arall**
- 13.1** Hyfforddiant – mae Un Llais Cymru yn cynnig nifer o wahanol gyrsiau am gost o £40 yr un (mae posib hawlio peth arian yn ol yn ddibynnol ar maint y cyngor). Cytuno bod angen cynnwys penawd hyfforddiant i aelodau a'r clerch yn y gyllideb ar gyfer y flwyddyn nesaf. Mae peth arian wrth gefn 2018/19, ac roedd yr aelodau yn cytuno dylai unrhyw aelod oedd am fynd ar gwrs gael y cyfle hynnu a chadarnhau gyda'r Cadeirydd a'r pwyllgor cyllid a pholisi cyn archebu eu lle. Cadarnhaodd y clerch ei bod wedi anfon rhestr o'r unedau posib drwy ebost, a bod rhestr ar gael wedi ei argraffu. Byddai posib hawlio unrhyw gostau teithio ynghlwm ag unrhyw hyfforddiant.
- 13.2** Panel Adolygu Annibynnol – daw adroddiad erbyn hyn yn dilyn yr adolygiad o gynghorau tref a chymuned. Cytuno cynnwys yr eitem ar agenda'r cyfarfod nesaf a dosbarthu copi o'r adroddiad i'r aelodau er gwybodaeth. CET
- 13.3** Sul y Cofio – cytuno byddai trefnu cyfarfod arbennig 17/10 yn y Neuadd am 7.30 o'r gloch i drafod pa weithgareddau fydd yn cymryd lle yn y pentref ar Sul y Cofio. Nodwyd bod nifer o aelodau'r cyngor yn methu bod yn bresennol i'r gwasanaeth ei hun am amryw resymau. Y Clerch i gadarnhau bod torch wedi ei archebu i'r cyngor. PAWB
- 13.4** Misha Parry – cytuno ysgrifennu i longyfarch Misha, merch ifanc o Nebo sydd wedi cyrraedd rowndiau terfynnol Junior Eurovision Cymru ar S4C yn ddiweddar. CET
- 13.4** Nodwyd bod y garafan yn parhau yn ei le ym Mhengorffwysfa. Y clerch i gysylltu a CSYM unwaith yn rhagor. CET
- 13.5** Mae sbwriel yn cael ei adael yn y gilfan gyferbyn a Groes Wen a hefyd ar lon gefn Mynydd Parys. Y clerch i gysylltu a CSYM i godi ymwybyddiaeth CET

14 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf

Bydd y cyfarfod nesaf Tachwedd 6, 2018 am 7 o'r gloch.

Bu'r cyfarfod orffen am 21.00.

**Arwyddwyd
Elfyn Hughes
Cadeirydd**

CET10/2018